# Ysgol LlLlangynnwr

## Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni 2018/19

Ysgol Gynradd Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2NN
E-bost: admin@llagunnor.ysgolccc.org.cymru
Gwefan: www.llangunnor.amdro.org.uk

Pennaeth: Mr Aled Davies
Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Emyr James

Gair oddi wrth y Cadeirydd.

Annwyl Rieni a Gwarcheidwad,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad y Llywodraethwyr am y flwyddyn ysgol 2017/18.

Bu eleni yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r ysgol. Yn dilyn arolwg gan y bwrdd arolygu Estyn nodwyd ganddynt fod yr ysgol yn perfformio'n dda iawn gydag elfennau o ragoriaeth mewn meysydd amrywiol ar draws yr ysgol.

Adroddiad Estyn 2017:

'... mae lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda, maent yn awyddus i ddysgu ac yn dangos parch gwirioneddol at eraill. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Un o gryfderau'r ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau lles disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn, gyda ffocws cryf ar wella safonau a sicrhau bod yr holl disgyblion yn cyrraedd safonau uchel.

Dymuna'r Corff ddiolch i bawb sydd wedi gwneud cyfraniad yn ystod y flwyddyn.

Yn gyntaf diolchwn i holl aelodau'r staff am eu gwaith a'u hymroddiad er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus a llewyrchus gan fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi eu nodi gan Estyn a sydd bellach yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol.

Rydym yn hynod o ffodus i gael Cymdeithas Rhieni ac Athrawon mor weithgar yn yr ysgol. Mae'r pwyllgor a nifer o rieni a ffrindiau eraill yn gweithio'n ddiflino i drefnu gweithgareddau i blant, rhieni a'r gymuned er mwyn codi swm sylweddol o arian i'r ysgol yn flynyddol.

Mae'r berthynas agos ag Ysgol Gyfun Bro Myrddin ac Ysgol Y Frenhines Elizabeth yn parhau, sy'n sicrhau bod y cyfnod trosglwyddo yn un hwylus i ddisgyblion wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd newydd yn yr ysgol uwchradd.

Diolchwn i chi, rhieni'r ysgol am eich cefnogaeth gyson. Gallwn ymfalchio yn y gweithgareddau a'r llwyddiannau eang ac amrywiol a brofodd ein disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol hon, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn hapus a llwyddiannus arall ym mywyd Ysgol Llangynnwr.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Emyr James

## Ysgol Gynradd Llangynnwr

YMDRECH DDAW Â LLWYDDIANT
EFFORT LEADS TO SUCCESS

## Aelodau Corff Llywodraethol Ysgol Llangynnwr (Hydref 2018 - Haf 2019)

Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol gan eithrio'r Pennaeth yn gwasanaethu am bedair blynedd.

| Enw | Statws | Tymor yn Gorffen |
|---|---|---|
| Mr Gareth Gravell | Cynrychiolydd Cymunedol | 06.03.2022 |
| Mr E James | A.A.Ll | 09.10.2020 |
| Cty Cllr E Williams | A.A.Ll | 05.02.2021 |
| Mr G Rees | A.A.Ll | 11.02.2023 |
| Mr A Davies | Prifathro | |
| Mr A Owen | Athro | 31.12.2019 |
| Mrs A Bowen | Cynrychiolydd Staff | 03.09.2021 |
| Mrs C Reading | Rhiant | 20.09.2019 |
| Mr I Davies | Rhiant | 20.09.2019 |
| Mr R Griffiths | C Cymunedol Ychwanegol | 01.07.2020 |
| Cllr S Howells | Cynrychiolydd Cymunedol | 29.11.2019 |
| Mrs Hillary Jones | Rhiant | 30.10.2020 |
| Mrs Angharad Vaughan Owen | Rhiant | 19.11.2022 |

**Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Emyr James**
**Clerc i'r Llywodraethwyr: Mrs A Thomas (Swyddog Gweinyddol yr Ysgol)**

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu trawsdoriad y gymuned leol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd.
Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisiau'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes.
Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod gan y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati.

**Ethol cynrychiolwyr y rhieni yn llywodraethwyr**

Wiethiau bydd angen ethol rhieni i'r Corff Llywodraethol. Ar ddiwedd cyfnod rhiant fel llywodraethwr anfonir llythyr i bob rhiant yn gofyn am gynigiadau i lanw'r llefydd gwag. Os digwydd i'r ysgol dderbyn cynnig am fwy nag un enw, yna anfonir papurau pleidleisio i bob rhiant er mwyn medru cyfri pob pleidlais.

**Sut ydw i'n cysylltu â'r Corff Llywodraethol?**

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, gallwch ysgrifennu at y Cadeirydd naill ai drwy lythyr neu e-bost drwy swyddfa'r ysgol. Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur.
Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i'r rhieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod y flwyddyn, a hynny drwy roi deiseb i fewn gyda 10% o'r rhieni a fynycha yr ysgol yn arwyddo'r ddeiseb, a nodi pam maent eisiau galw cyfarfod.

**Costau'r Corff Llywodraethol**

Ni hawliwyd costau unigol gan unrhyw lywodraethwr

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2017 - 2018

# Staff yr Ysgol

| | |
|---|---|
| Mr Aled Davies | Prifathro |
| Mr Aled Owen | Dirprwy Brifathro |
| Miss Jodie Guest/Miss Eleri Soanes | Dosbarth Dewi (Meithrin) |
| Mrs Caron Thomas (Pennaeth Cynorthwyol) Miss Nicola Davies | Dosbarth Non (Derbyn) |
| Mrs Michelle Llywelyn | Dosbarth Pwyll (Blwyddyn 2) |
| Mrs Menna Mason/ Miss Nicola Davies | Dosbarth Rhiannon (Blwyddyn 1) |
| Mrs Nicola Elias | Dosbarth Myrddin (Blynyddoedd 1, 2 a 3) |
| Mrs Angharad Vaughan Owen/ Mrs Gillian Evans | Dosbarth Glyndwr (Blwyddyn 3) |
| Miss Gwennan Jones | Dosbarth Buddug (Blwyddyn 4) |
| Mrs Eirith Morris | Dosbarth Gwenllian (Blwyddyn 5) |
| Mrs Catrin Thomas | Pennaeth Cynorthwyol<br>Llywelyn (Blwyddyn 6) |
| Mr Rhodri Evans | Dosbarth Arthur (Blynyddoedd 4,5 a 6) |
| Miss Nicola Davies | CPA |
| Mrs Teleri Bowen | CPA |
| Mr Aled Owen | CPA |
| Mr Martin Griffiths | CPA |

# Staff Cynorthwyol

| | |
|---|---|
| Mrs Allison Bowen | Gweinyddes Feithrin |
| Mrs Dolan Williams | Gweinyddes Feithrin |
| Mrs Margaret Thomas | Cynorthwywr A.D.Y (1:1) |
| Mrs Claire Frazer Jones | Cynorthwywr A.D.Y (1:1) |
| Mrs Helen Roberts | Cynorthwywr A.D.Y (1:1) |
| Mrs Maria Williams | Cynorthwywr |
| Mrs Shan Lewis | Cynorthwywr A.D.Y (1:1) |
| Mrs Tina Eldridge | Cynorthwywr |
| Mrs Sandra Rowlands | Cynorthwywr |
| Mrs Amanda Spagoni | Cynorthwywr |
| Miss Sarah Thomas | Cynorthwywr |
| Mrs Alys Williams | Cynorthwywr |
| Mrs Alison Jones | Cynorthwywr |
| Mrs Angela Thomas | Swyddog Gweinyddol yr Ysgol |
| Mrs Christine Higgins | Swyddog Prydiau Ysgol |
| Mr Peter Hopkins | Gofalwr |
| Mrs Enid Lewis | Staff y Gegin |
| Mrs Llinos Evans | Staff y Gegin |
| Mrs Eileen Thomas | Staff y Gegin |
| Miss Aimee Hall | Staff y Gegin |
| Mrs Ruth Firth | Goruchwylwraig cinio |
| Mrs Ann West | Goruchwylwraig cinio |
| Mrs Donna Hancock | Goruchwylwraig cinio |

## Polisi Iaith yr Ysgol

Mae Ysgol Llangynnwr yn ysgol ddwy-ffrwd. Ysgol Gategori A/B yw'r ysgol - gyda'r Ffrwd Gymraeg wedi'i dynodi'n ysgol Gategori A a'r Ffrwd Saesneg yn ysgol Gategori B, yn unol â pholisi Iaith yr Awdurdod Lleol.
Yn ein dosbarthiadau Categori A, Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Cyflwynir Saesneg wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 fel bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu cymhwyster cyfartal yn y ddwy iaith erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd.
Yn ein dosbarthiadau Categori B, dylid defnyddio Cymraeg fel cyfrwng ym mywyd a gwaith yr ysgol yn y cyfnodau Meithrin a Derbyn. Bydd hyn yn sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad parhaol yn nysgu'r iaith Gymraeg ym mlwyddyn 1 a 2 a CA2 i sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer Saesneg a Chymraeg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Nod yr ysgol yw datblygu cymhwyster ieithyddol yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd 11 oed.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel yn y gorffennol, rhoddwyd mynediant llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol i bob disgybl, os nad yn erbyn cyngor swyddogion yr awdurdod. Mae strategaethau i gefnogi'r cwricwlwm gan swyddogion proffesiynol, megis therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwaedigaethol, ymwelydd iechyd, swyddogion cymorth ymddygiadol yn cael eu hintegreiddio i mewn i weithgareddau disgybl ar bob achlysur lle bo hynny'n briodol. Cyflawnir hyn drwy gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth neu fel unigolion neu mewn grwpiau bychain y tu allan i'r dosbarth gyda chymorth cynorthwywyr anghenion dysgu ychwanegol.
Mrs Caron Thomas yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

## Presenoldeb Ysgol

| | % presenoldeb | % absenoldeb anawdurdodedig |
|---|---|---|
| Tymor yr Hydref 2018 | 95.2% | 0.8% |
| Tymor y Gwanwyn 2019 | 95.2% | 0.9% |
| Tymor yr Haf 2019 | 94.8% | 2.5% |

**Er bod canran o absenoldebau anawdurdodedig yn parhau'n fechan, dilynir i fyny ar bob achos er mwyn cynnal y safonau. Mae'r athrawon dosbarth yn craffu'n ofalus yn ddyddiol ar absenoldebau anawdurdodedig a'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr.**

## Targedau Presenoldeb

| Blwyddyn Academaidd | Targed |
|---|---|
| **2019-20** | **95.5%** |
| **2020-21** | **95.8%** |
| **2021-22** | **96%** |





## Cwricwlwm ac Asesu

Mae’r holl athrawon a’r cynorthwy-wyr i’w canmol am safon y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Llangynnwr. Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau’r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Ein nod yw creu awyrgylch hapus a gofalgar lle mae pob plentyn, beth bynnag fo’i allu, yn cael ei annog i ddatblygu fel unigolyn, a thrwy hyn, ennill y ddealltwriaeth, wybodaeth a’r sgiliau perthnasol i fyw bywyd fel oedolyn. Seiliwyd ein cwricwlwm ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgrifiwyd yn y Ddeddf Addysg 1988 a diwygiadau dilynol. Mae’r ysgol yn darparu ystod lawn o bynciau Ysgol Gynradd a thrwy gynllunio a monitro gofalus o’r cwricwlwm sicrhawn fod dilyniant yn cael ei fonitro’n agos. Yn ddiweddar mae’r ysgol wedi mabwysiadu Canolfan Athrawon ac Incerts i dracio cynnydd ein disgyblion. Mae’r holl athrawon yn cynllunio gwaith yn ofalus ar gyfer y plant a addysgir ganddynt er mwyn gosod targedau o fewn eu cyrraedd hwy a’u disgyblion. Mae cynllunio gofalus hefyd yn sicrhau fod gwaith yn gyfatebol i allu, profiadau a diddordebau’r disgyblion gan wneud yn siwr fod datblygiad, dilyniant a phwysau cytbwys yn cael ei roi i bob pwnc yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
Darperir cwricwlwm sy’n sicrhau fod disgyblion yr ysgol yn astudio ystod eang a chytbwys o bynciau sy’n hyrwyddo eu datblygiad meddyliol, corfforol, ysbrydol. moesol a diwylliannol.

Rydym, ar hyn o bryd, yn y broses o fabwysiadu’r Cwricwlwm i Gymru 2022, sy’n anelu at baratoi plant a phobl ifanc i ffynnu mewn dyfodol lle mae sgiliau digidol, y gallu i addasu a chreadigrwydd yn hanfodol. Mae’r ddau Cyfnod Allweddol ar daith tuag at ddarparu Cwricwlwm sy’n cynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad a’r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Y chwe maes dysgu a phrofiad:
Celfyddydau Mynegiannol
Dyniaethau
Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
Iechyd a Lles
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
Mathemateg a Rhifedd
Mae’r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau a gynlluniwyd er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith.
- dinsasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a’r byd.
- unigolion each, hydras say’s baron i fyi byways gan wired eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Yn unol ag athroniaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol, asesir gwaith y disgyblion yn barhaus drwy gydol eu blynyddoedd ysgol. Hefyd, asesir y disgyblion ar gychwyn y flwyddyn Derbyn ac ym mlynyddoedd 2 a 6. Yn ogystal, mae bob plentyno Flwyddyn 2 i 6 yn cwblhau Profion Statudol Cenedlaethol.

## Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad 2017 ynghyd â gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â dadansoddiad o ddata canlyniadau diwedd cyfnod allweddol. Mae'r targedau yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

### Prif flaenoriaethau 2018 / 19 / 20

- Dadansoddi data Dewi a chanlyniadau'r Profion Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol er mwyn datblygu dealltwriaeth o ba mor dda mae ein disgyblion yn perfformio.
- Datblygu'r Cwricwlwm newydd. Prif ffocws eleni yw darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithredu'n fwy annibynnol.
- Gwella medrau llafar Cymraeg yn y ffrwd Saesneg a gallu disgyblion yn y ddwy ffrwd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- Datblygu ymhellach ardaloedd addysgu allanol a thir yr ysgol.

### Oriau Ysgol

**Dan 5**
9.00 - 11.45
11.45 - 1.00 CINIO
1.00 - 3.00

Cyfnod Sylfaen
9.00 - 12.00
12.00 - 1.00 CINIO
1.15 - 3.05

Cyfnod Allweddol 2
9.00 - 12.20
12.20 - 1.15 Cinio
1.15 - 3.15

### Polisi Amddiffyn Plant

Mae gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiledig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer diogelu plant yw Mr Davies, Mr Owen a Mrs Caron Thomas.
Mae gan aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethol, sef Mrs Catrin Reading , hefyd, gyfrifoldeb am ddiogelu.

### Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'n dyled yn fawr eleni eto i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion diflino wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian tuag at anghenion yr ysgol. Rhoddir yr arian tuag at brynu offer addysgiadol yn ôl dymuniad y prifathro.
Fel ysgol rydym yn gwerthfawrogu'n fawr iawn ei gwaith caled a chyson.



## GWYLIAU A THYMORAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019 - 2020

| Tymor | Dechrau | Diwedd | Gwyliau Hanner Tymor (Dechrau) | Gwyliau Hanner Tymor (Diwedd) | Dechrau | Diwedd | Nifer o ddiwrnodau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hydref 2019 | Dydd Mawrth 3 Medi | Dydd Gwener 25 Hydref | Dydd Llun 28 Hydref | Dydd Gwener 1 Tachwedd | Dydd Llun 4 Tachwedd | Dydd Gwener 20 Rhagfyr | 74 |
| Gwanwyn 2020 | Dydd Llun 7 Ionawr | Dydd Gwener 14 Chwefror | Dydd Llun 17 Chwefror | Dydd Gwener 21 Chwefror | Dydd Llun 24 Chwefror | Dydd Gwener 3 Ebrill | 59 |
| Haf 2020 | Dydd Llun 20 Ebrill | Dydd Gwener 22 Mai | Dydd Llun 25 Mai | Dydd Gwener 29 Mai | Dydd Llun 1 Mehefin | Dydd Llun 20 Gorffennaf | 60 |
| Diwrnod HMS- Dydd Llun 2 Medi 2019 Dydd Llun 6 Ionawr 2020 | | | | | | | 2 |
| | | | | | CYFANSWM | | 195 |

**O.N. Gwener y Groglith - 10 Ebrill 2020**
**Gwyl Fai - 8 Mai 2020**

### Prosbectws yr Ysgol

Mae prosbectws yr ysgol yn gyfredol ac ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

### Trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2018-19 trosglwyddodd 42 o ddisgyblion i ysgolion uwchradd lleol -
trosglwyddodd 18 i Fro Myrddin
trosglwyddodd 21 i Q E High
trosglwyddodd 3 i Ysgol Maes y Gwendraeth

### Menter Yfed a Bwyta'n Iach

Mae'r ysgol yn parhau i hyrwyddo bwyta'n iach trwy goginio ciniawau iach, gwerthu ffrwythau, cynnig dwr yfed oer i'r plant a darparu llaeth am ddim i blant hyd at 7 oed.

### Toiledau

Mae gan yr ysgol doiledau addas ar gyfer y disgyblion a'r staff ac maent yn cael eu golchi a'u glanhau yn ddyddiol. Mae unrhyw broblem cynnal a chadw yn cael ei datrys yn syth.

### Cyflawniad Ariannol

**Gwariant Net 2018/19 - £986,631**

**Dyraniad Ariannu yn ôl Formwla 2018/19 - £982,105**

**Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd o 2017/18 - £53,995**

**Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd o 2019/20 - £49,469**



## Ymwelwyr i'r Ysgol

- Sioe mewl cymeriad
- PC Kath
- Nyrs Ysgol
- Myfyriwr (nyrs)
- Ymweliad SALT
- Geraint Rees - Eisteddfod Llandyfaelog
- Richard Lashely
- Ryanne Rogers
- Alan Carter- QEHigh
- Marci G - rhaglen radio
- Athrawon bro
- Val Newton
- Hyfforddiant Seiclo
- Gareth Bennett - ENW
- Sian Elin - Menter Sir Gar
- Sarah Hopkins - Superstars
- Mad Science
- Emma Griffiths - Sir
- Welsh Whisperer
- Tiwtoriaid y Drindod
- Ffisiotherapydd
- Dietegydd
- Gweithwyr Cymdeithasol
- Sam - Capel Peniel
- Agor Y Llyfr
- Catrin Griffiths - ERW
- Comcen
- Sarah Howells a'i myfyrwyr
- Tîm arlwyo'r Sir
- Mrs Luned Davies - Bro Myrddin
- Hanah Morgan - Maes y Gwendraeth
- Arborfi PAP
- Bethan Phillips Evans
- Mrs Hawking - Bible Explorer
- Ymweliad Llywodraethwyr
- Mari Rhian Owen - Arad Goch
- Mr Heath - Club Modeli
- Seicolegydd Addysg
- Tudur Phillips- Sioe Cip
- Dafydd - Cyngor Cymuned
- Gweithdy - Senedd Prydain
- Colorfoto
- Designed to Smile
- Elin Harries ChATT
- Gillian Evans - Meddylfryd Twf
- Dysgu trwy chwarae
- Steve - Cymorth Ysgolion
- Mr Bird - Adar Ysglyfaethus
- Bro Myrddin -Prif swyddogion
- Mr D Thomas - Ramquist
- CAFCAS
- Rhys Padarn Jones - arlunydd
- Myrs - anafiadau ymenydd
- Andrew Thomas - Meraki
- Gareth Morgan - UCAC
- Julie Townsley - Oxford University Press
- Jade Vowles - QEHIgh
- Steffan - sgiliau
- Niamh Ward -tîm taflod hollt
- Kerbcraft
- Maer Caerfyrddin
- Dyfed James - Bro Myrddin
- Iaith a Chwarae
- Sportfix
- Nan Lewis
- Liam Bowen
- NSPCC
- Cogurdd Beirniaid
- Hyfforddwyr - Tric a chic
- Cathy Payne - Bro Myrddin
- Siw Jones
- Hilary Jones - Llysgenhadon Efydd

## Profiadau Ym Maes Chwaraeon

Yn gyffredinol prif nodau dysgu Addysg Gorfforol yw annog a helpu pob plentyn i fyw bywyd iachus a bywiog ac i hyrwyddo datblygiad priodweddau dymunol, megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad, gorchest a hunan hyder. Ceisia'r staff gyflawni'r nodau yma trwy gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i blant o bob oed, tu fewn a thu allan i'r cwricwlwm ffurfiol, gan eu herio i ddatblygu a gwella'u perfformiad unigol. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys athletau, rygbi, pêl droed, hoci, pel rhwyd ac amrywiaeth o weithgareddau dan do ac awyr agored.

- Yn ystod y flwyddyn gwnaeth ein disgyblion gymryd rhan yn y chwaraeon canly Yn nol:
- Pencampwriaeth Sgio Gorllewin Cymru
- Pencampwriaeth Athletau Ysgolion Sir Gaerfyrddin
- Mabolgampau Ysgol ( Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2)
- Gemau Hwyl yr Urdd
- Pencampwriaeth Traws Gwlad Ysgolion Sir Gaerfyrddin
- Pencampwriaethau Sgio Cymru yn Llangrannog
- Cystadleuaeth Pel Droed yr Urdd
- Pencampwriaeth Athletau Dan do
- Gwersi Nofio
- Pencampwriaeth Traws Gwlad Ysgolion Dyfed
- Ras Trawsgwlad Dydd Gwyl Ddewi
- Pencampwriaeth Athletau Ysgolion Dyfed
- Treialon Rygbi Rhanbarth Gaerfyrddin
- Cystadleuaeth 10 bob ochr Rygbi - Cymru
- Game On - peldroed.
- Cystadleuaeth Rygbi yr Urdd - Myrddin a Chymru
- Cystadleuaeth Pêl Droed Clwb Caerfyrddin
- Rygbi Tag
- Cystadleuaeth Pêl Rhwyd yn y Pod, Coleg y Drindod
- Cystadleuaeth Criced ar faes Clwb 'Carmarthen Wanderers.'
- Cystadleuaeth Pêl Droed Cymysg
- Cystadleuaeth Rygbi yr Urdd i ferched
- Cystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd - Sir Gaerfyrddin a Chymru
- Prawf Seiclo Bl6
- Gala Nofio'r Urdd
- Seiclo.

## Data Cymharol Ysgol 2018 - Canrannau Cyfnod Sylfaen

| | | Deilliant 5 & 6 | Deilliant 6 |
|---|---|---|---|
| Datblygiad personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | Ysgol | 97.6% | 61.9% |
| Sgiliau Iaith,Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg) | Ysgol | 85.7% | 40.0% |
| Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg) | Ysgol | 85.7% | 14.3% |
| Datblygiad Mathemategol | Ysgol | 90.5% | 40.5% |

## Dangosydd Cyfnod Sylfaen

| | |
|---|---|
| Ysgol | 85.7% |



